



Popeth sydd angen i chi ei wybod am dreuliau gwirfoddoli

Er bod gwirfoddoli yn ddi-dâl, ni ddylai gael unrhyw effaith ariannol ar wirfoddolwr. Mae'n arfer dda talu unrhyw 'dreuliau parod' y gall gwirfoddolwr eu hysgwyddo yn ystod eu hamser yn gwirfoddoli.



Pam Talu Treuliau Parod?

Drwy dalu treuliau parod gwirfoddolwr, rydych yn sicrhau bod y cyfle ar gael i bawb. Bydd eich sefydliad yn osgoi creu rhwystrau i bobl ag incymau isel, rhag gwirfoddoli. Mae hyn yn galluogi pobl i roi yn hael o'u hamser i gefnogi eich sefydliad.



Beth allwch chi ei ad-dalu i wirfoddolwyr?

Gallwch ad-dalu sawl peth i wirfoddolwyr, e.e. Teithio yn ôl ac ymlaen o'u gweithgaredd gwirfoddoli, prydau bwyd a lluniaeth, gofalu am y rhai sy'n ddibynnol arnynt, offer angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r rôl wirfoddoli e.e. cyfarpar diogelu personol etc. a chostau gweinyddu e.e. stampiau, offer ysgrifennu etc.

Dylai unrhyw dreuliau a delir fod yn gostau gwirioneddol a ysgwyddir, a lle bo'n bosib dylai'r gwirfoddolwr ddarparu derbynebaw fel prawf o wariant.



Mae'n arfer dda amlinellu proses treuliau parod eich sefydliad gyda darpar wirfoddolwyr yn ystod y broses gynefino, yn ogystal â darparu'r dogfennau perthnasol iddynt a all fod yn ofynnol ar gyfer hawlio. Mae hefyd yn arfer dda gwneud darpar wirfoddolwr yn ymwybodol o bolisi treuliau eich sefydliad a rhoi copi iddynt. Drwy sicrhau bod y dogfennau hyn ar gael i'r darpar wirfoddolwr o'r cychwyn cyntaf, mae'r gwirfoddolwr yn ymwybodol o beth yw cais am wariant derbyniol.

Gellir dod o hyd i wybodaeth am gyfraddau tanwydd a milltiroedd cymeradwy yma:



Teithio - cyfraddau a lwfansau tanwydd a milltiroedd - GOV.UK (www.gov.uk)





O fewn eich polisi treuliau, efallai yr hoffech amlinellu i'r darpar wirfoddolwr, disgwyliadau a cheisiadau rhesymol eich sefydliad. Efallai yr hoffech ofyn i'ch gwirfoddolwr archwilio'r ffurf ar drafnidiaeth fwyaf cost effeithiol ar gyfer eu teithio yn ôl ac ymlaen o'u cyfle gwirfoddoli. Efallai yr hoffech amlinellu dull eich sefydliad o gefnogi darpar wirfoddolwyr y mae angen cefnogaeth ychwanegol arnynt i deithio yn ôl ac ymlaen o'u cyfle gwirfoddoli.

Dolenni defnyddiol:



Llyw - Gwirfoddoli a hawlio budd-daliadau - GOV.UK (www.gov.uk)



Cyngor ar Bopeth - Sut mae gwirfoddoli yn effeithio ar eich budd-daliadau - trosolwg - Cyngor ar Bopeth

Prosiect amlasiantaethol yw

Cymorth Gwirfoddoli Gorllewin Morgannwg

sy'n creu adnoddau a rennir i ddatblygu gwybodaeth gwirfoddolwyr sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr a'r gwaith o'u rheoli a chydlynu ar draws ardaloedd Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Ariennir gan Gronfa Adfer Gwirfoddoli Llywodraeth Cymru.

Partneriaid y prosiect yw:

Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Cyngor Abertawe, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe a Phartneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg.

Am ragor o wybodaeth, ewch i:

www.westglamorgan.org.uk/wgvs